

Eisteddfod Powys

Beirniadaeth Cystadleuaeth Dysgwyr ar Lefel Ganolradd

Ysgrifennu sgwrs rhwng dau ddieithryn ar drên

Beirniad: Felicity Roberts

Daeth pedair ymgais i law, ac roedd y safon yn uchel, gydag ychydig iawn o wallau yn y darnau. Roedd hi'n anodd iawn dewis rhyngddyn nhw a dweud y gwir. Mae'n gallu bod yn heriol i wybod pa bryd mae'n briodol i ddefnyddio'r gystrawen bwysleisiol a pha bryd i beidio. Dydy gorfod dewis rhwng defnyddio 'ti' a 'chi' ddim yn codi yn Saesneg, ond yn Gymraeg mae'n rhaid dewis, ac o fod wedi dewis yr un sy'n briodol, thâl hi ddim i fynd yn ôl ac ymlaen rhwng y naill a'r llall wedyn! Mae dewis yr union air iawn yn gallu bod yn anodd hefyd; er enghraifft dewis y gair 'pigo' neu 'picio'. Yna mae gallu ateb cwestiynau gyda'r gair cywir yn dipyn o gamp i ddysgwyr bob amser.

Mae darn yr un sy'n ysgrifennu dan yr enw 'Y Gath Ddu' wedi ei ysgrifennu'n glir a dealladwy, ond mae'r sgwrs rhwng y ddau dipyn yn rhyfedd ac yn ogleisiol. Yna mae'r wên yn lledu wrth iddi wawrio ar y darllen ydd mai dau anifail sy'n sgwrsio â'i gilydd, ac mae hyn yn gwneud y sgwrs yn ddoniol ddifyr, yn hytrach nag yn hollol bisâr, wrth ddarllen am y mwynhad a geid o redeg drwy fôd a rholio mewn pyllau dŵr!

Cawn sgwrs rhwng plentyn a hen ŵr mewn darn arall sy'n ddienw, ac mae'r darn yma wedi ei ysgrifennu'n glir ac yn ddealladwy hefyd. Mae cwestiynau'r plentyn i'r hen ŵr yn gwneud i rywun synnu at y pethau yr ydyn ni'n eu cymryd yn ganiataol, fel gwybod beth sydd yn enw lle, a beth sydd yn gyfarwyddyd. Mae sawl cwestiwn yn dod â gwên, ac yna mae rhywun yn gwerthfawrogi clyfrwch atebion yr hen ŵr.

Mae darn 'Glasgoch yn glyfar iawn hefyd. Mae'n chwarae ar y gair 'glas' a'r gair 'coch' drwy ddefnyddio idiomaau, enwau a thermau, yn ddyfeisgar iawn. Mae'r cyfan wedi ei weu i mewn i sgwrs rhwng dau sy'n cefnogi dau dîm pêl-droed gwahanol, y naill yn gwisgo crys glas ac yn cefnogi Birmingham, a'r llall yn gwisgo crys coch ac yn cefnogi Wrecsam. Mae eithafrwydd y gefnogaeth i'r naill liw neu'r llall yn chwerthinllyd a doniol.

Mae 'Crwydryn Adref' wedi rhoi'r teitl 'rhamant i'w d(d)arn, ac mae'r sgwrs rhwng y ddau ddieithryn yma yn sgwrs fach ddiddorol i ni sydd yn siarad y Gymraeg ac sydd yn iaith leiafrifol. Mae'r darn yn agor gyda'r cwestiwn 'Ga i eistedd yma?' Yna daw'r ymateb 'Wrth gwrs' – ond y cwestiwn sy'n ei ddilyn -sy'n ddiddorol – 'Sut oeddech chi'n gwybod fy mod i'n siarad Cymraeg?' Mae'r sgwrs yn parhau'n ddiddorol, ac mae'n gwneud pwynt pwysig iawn ar y diwedd wrth ddweud bod i newydd-ddyfodiaid i Gymru ddysgu'r Gymraeg yn galluogi'r Cymry ddefnyddio eu hiaith eu hunain, heb orfod troi i'r Saesneg.

Yn gydradd gyntaf dw i'n gosod **Y Gath Ddu** am ei doniolwch cynnil difyr mewn Cymraeg naturiol a chlir, **ynghyd â 'Crwydryn adref'** am ddarn mewn Cymraeg cyfoethog, sydd yn cyfleu cefnogaeth angerddol i'r iaith.

Yn dynn ar eu sodlau **yn gydradd ail** dw i'n gosod **y darn rhwng y plentyn a'r hen ŵr** am sgwrs dda mewn Cymraeg safonol da, **a Glasgoch** a luniodd ddarn mor ddyfeisgar gan arddangos gwybodaeth arbennig o ddywediadau a'r ffordd mae pethau yn cael eu mynegi yn idiomatig yn y Gymraeg.

Llongyfarchiadau i chi i gyd. Roedd yn bleser darllen eich gwaith.